**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**17.07.2025 @ 7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO Y CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
   Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Elgan Williams, bawb i'r cyfarfod.

2. **PRESENNOL**
   Y Cynghorydd Mel Briant;
   Y Cynghorydd Ieuan Davies;
   Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies;
   Y Cynghorydd Alun Price Jones;
   Y Cynghorydd Richard Jones;
   Y Cynghorydd Gareth Owen;
   Y Cynghorydd Elgan Williams a
   Eleri Thomas (Clerc).
   Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyrH) John Evans

3. **YMDDIHEURIADAU**
   Ymddiheurodd y Cynghorydd Gareth Edwards, y Cynghorydd Angharad Jones a'r Cynghorydd Non Jones am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YR HEDDLU**
   **Darparodd SCCH John Evans y wybodaeth ganlynol am faterion yr heddlu am y mis diwethaf:**

   **Aflonyddu / Anghytundeb:** sero
   **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol:** sero
   **Byrgleriaeth**: sero
   **Difrod Troseddol**: sero
   **Lladrad**: sero.
   **Trais/ Ymosodiad:** sero
   **Twyll:** sero

   Ardal Talsarn: £5,000 wedi'i ddwyn trwy sgam ffôn, sgamwyr wedi twyllo gan ddweud eu bod yn cynrychioli Banc Barclays.

   **Wythnos Ymwybyddiaeth** Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: Mae swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yr wythnos hon yn cynnal patrolau gwelededd uchel mewn nifer o fannau sydd wedi dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol dwys.
   Bydd swyddogion yn ymweld â busnesau lleol a mannau cyhoeddus fel rhan o Operation Ivydene.

   Mae rhai modurwyr wedi torri’r rheol yn ymwneud â terfyn 20mya o fewn ardaloedd dynodedig.

Roedd presenoldeb yr heddlu wedi bod yn amlwg yn Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yn ddiweddar a throseddau gwledig wedi eu hamlygu. Dygwyd 8 beic cwad ym Mhowys; defnyddiwyd tystiolaeth DNA mewn ymgais i adnabod y troseddwyr.

Adroddwyd bod fan wedi'i barcio am gyfnod o 10 wythnos ar y ffordd wrth fynedfa'r Pentref. Gallai Cymdeithas Tai Barcud o bosibl, gynnig help llaw. Cerbyd heb ei drethu na'i yswirio.

**Posteri Diogelwch Cartref**: i'w cylchredeg yn y cyffiniau ac ar-lein.

5. **DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL A RHAGFARNLLYD: Dim.**

6. **CADARNHAU COFNODION 19 Mehefin 2025**
**CYNIGIWYD (Y Cynghorydd Gareth Owen); EILIWYD (Y Cynghorydd Elgan Williams)** a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion 19 Mehefin 2025 yn gofnod cywir, a'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

7. **MATERION YN CODI**

**7.1 Ardal Chwarae Pantyfedwen**

**7.1.1 CYTUNWYD i wneud cais am Grant Cyfalaf Darpariaeth Chwarae Ceredigion.** Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid cyfalaf i GS Ceredigion i wella cyfleoedd chwarae yng Ngheredigion.

Roedd uchafswm o £13,500 o grant cyfalaf ar gael fesul prosiect. 10% o gyllid cyfatebol ei angen ar gyfer y prosiect. £130,000 – cyfanswm ar gael i bob ymgeisydd.
Roedd y ffurflen gais wedi'i chyflwyno i Matthew Roebuck erbyn dydd Gwener 27 Mehefin 2025.
Y Cynghorydd Gareth Owen, Rheolwr Prosiect. Grant i dalu am siglen, matiau, atgyweiriadau a gatiau. Cytunwyd i ddiolch i Rosemary Whinnett am ei chymorth i gwblhau'r Cais Grant.
Adroddwyd bod y dyddiad cau ar gyfer Ceisiadau wedi'i ymestyn.

**7.1.2 Ystyriwyd goblygiadau Adroddiad Arolygu Blynyddol** RoSPA Mehefin 2025. Roedd angen sylw ar y ffens rhwng yr Ardal Chwarae a'r Cae Pêl-droed, yn ôl yr Adroddiad. Cytunwyd hysbysu'r Clwb Pêl-droed.

**7.2 Lloches Fws Newydd Ffair Rhos**

**Roedd y Cynghorydd Ieuan Davies wedi dod o hyd i loches fysiau addas.** I sicrhau darn o dir y gellid gosod y lloches fws. Cytunwyd trefnu cyfarfod safle â chynrychiolydd CS Ceredigion i drafod y mater ymhellach.
Disgwylir ateb gan yr Adrannau Priffyrdd/Cynllunio, Cyngor Sir Ceredigion.

**7.3 Tocio coeden onnen ar Las y Pentref:** gadael ar y bwrdd am y presennol. Ystyriwyd tocio coeden onnen ger y Pafiliwn.

**7.4 Bin Graean: Cwrtywern**: Cytunwyd prynu'r bin graean a'r halen.

**7.5 Ffair, Ffair Rhos:** Ystyriwyd digwyddiad ar raddfa fechan ar gyfer 2025.

**7.6 Bioamrywiaeth Adran 6**: Cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned: Roedd y Cynghorydd Mel Briant yn rhoi sylw i'r mater.

**7.7 Hen Ffynnon y Pentref:** Y Cynghorwyr Elgan Williams a Gareth Edwards wedi cynrychioli'r Cyngor Cymuned yng nghyfarfod safle dydd Iau 3ydd Gorffennaf 2025 am 2pm. Roedd Mr Jim Cowie, Mr Chris Harris, a Swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn bresennol.
Roedd angen ymwneud ag Asesiad Risg.

**7.8 Clymog Japaneaidd (Japanes Knotweed): Adroddwyd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.** Gofynnwyd am eglurhad pellach ynglŷn â lleoliad y clymog Japaneaidd er gwaethaf datgan bod y planhigyn wedi tyfu y tu ôl i 12/13 Maesydderwen ac ar lan yr afon.

Adroddwyd bod Alan wedi trin y chwyn o amgylch Cofeb Rhyfel Bont.

**7.9 Arwydd a blwch Dŵr Cymru** yn dal I fod ar fynedfa'r Pentref.
I Hysbysu Dŵr Cymru.

**7.10 Adleoli'r fainc o Gwm Lluest:** cytunwyd i adleoli i'r Parc.

**7.11 Materion a gyflwynwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Mai 2025:**

**7.11.1 Camfa** angen ar y llwybr cerdded ym Mharc Carafanau Bryn Gors.

**7.11.2 Llwybr cerdded** o'r Ysgol Gynradd i Ffair Rhos: roedd angen giât ar hyd y llwybr hwn.

**7.13.3 Llwybr cerdded ar hyd yr** afon yng nghyffiniau Dolebolion: angen cynnal a chadw – i hysbysu Eifion Jones Cyngor Sir Ceredigion.

**7.13.4 Adeilad blaenorol "**Cyfleusterau Cyhoeddus" Bont. Mae coed yn gordyfu yn y cyffiniau. Roedd goleuadau stryd yn angenrheidiol yn y lleoliad hwn a ger "Arhosfa."

**7.13.5 Lôn Fach: golau stryd yn angenrheidiol** ar ddechrau ac ar ddiwedd y Lôn. Glaswellt angen ei dorri yn Lôn Fach, ardal yr oedd CS Ceredigion wedi ymdrin â hi, yn y gorffennol. Cytunwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'r Cynghorydd Ifan Davies drefnu cyfarfod safle â Brian, Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion mewn perthynas â 7.13.4 a 7.13.5.

**7.12 Pafiliwn Bont:** Cytunwyd i ailwahodd aelod o Bwyllgor Pafiliwn y Bont i gyfarfod y Cyngor Cymuned y dyfodol, er eu bod wedi gwrthod y gwahoddiad blaenorol.

**7.13 Pwyllgorau:**
Neuadd Pantyfedwen: Ochr Flaen y Neuadd – paentio wedi cychwyn.
Llywodraethwyr Ysgolion: Cyflwynwyd yr Ysgoloriaeth i Lucy Whinnet gan y Cadeirydd Elgan Williams yn ystod y Seremoni Wobrwyo yr Ysgol yn ddiweddar.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1 Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynigion i wella gweinyddiaeth a gorfodi'r Dreth Gyngor yng Nghymru. Mae'r cynigion yn cynnwys:**

- newid y gyfraith i greu proses orfodi decach, dryloyw a mwy effeithiol ar gyfer Treth y Cyngor sydd heb ei thalu
- darparu canllawiau i helpu cynghorau i gasglu dyledion Treth y Cyngor yn decach ac yn gynaliadwy

Mae yna gwestiynau ymgynghori ac mae ymatebion yn cael eu gwahodd erbyn 23 Gorffennaf 2025.

**Mae copïau o ddogfennau'r ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb i'w cael yn:** **https://www.llyw.cymru/gwellar-broses-o-weinyddu-gorfodir-dreth-gyngor-yng-nghymru?utm_content=&utm_medium=email&utm_name=&utm_source=govdelivery&utm_term=&_gl=1*rgcoci*_ga*MTE0MTM5NDI4MS4xNzI5NjgwNjgw*_ga_L1471V4N02*czE3NDcyOTg3NDkkbzIkZzEkdDE3NDcyOTkzMDMkajAkbDAkaDA**.

**Bydd Un Llais Cymru yn paratoi ymateb i'r ymgynghoriad hwn.**

**8.2 Cynnal y Cardi:** cyfleoedd ariannu.
**8.3 GIG Cymru:** Gwasanaethau Iechyd yng Ngheredigion.
**8.4 Un Llais Cymru:** Cynllun Tirwedd Coedwigoedd Cenedlaethol.
**8.5 Bwletin Costau Byw Ceredigion:** Mynediad at fwyd iach.
**8.6 Gohebiaeth arall: Er gwybodaeth yn unig - roedd llawer o negeseuon e-bost wedi cael eu wedi'u hanfon ymlaen at Gynghorwyr, rhwng cyfarfodydd, yn electronig.**

**9. CYNLLUNIO**

**9.1 Cais Cynllunio: A250460:** Ymgeisydd: Mr Lyn Morgan.
Lleoliad: Tir ger Llwynteg, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY25 6BL.
**Sylwadau'r Cyngor Cymuned**: Dim gwrthwynebiad.

**10. CYLLID**

**10.1 Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol:** Roedd Mrs Enid Hughes wedi ymgymryd â'r Archwiliad Mewnol am ffi o £100. Atodiad 1. Mae'r cyfrifon wedi'u hanfon ymlaen at Grant Thornton yr Archwilwyr Allanol.
**10.2 Cyflog y Clerc: Gorffennaf 2025** £238.33; Treuliau: £42.63
**10.3 Aelodaeth Un Llais Cymru yn rhannol:** £85
**10.4 Llogi Neuadd Pantyfedwen ar gyfer cyfarfodydd;** £75
**10.5 Cyfrif Ysgoloriaeth:** £20

**10.6 Banc Barclays:** Pryderon mewn perthynas â diweddaru llofnodwyr a manylion cyswllt y clerc. Roedd y Cynghorydd Non Jones (llofnodwr) a'r Clerc wedi ymweld â Hwb Barclays, Llanbedr Pont Steffan ar achlysuron gwahanol mewn ymgais i ddatrys y mater. Bydd yn rhaid i'r Cynghorydd Gareth Owen (llofnodwr) ddiweddaru ei fanylion. Dylid dileu enw'r Cynghorydd a'r Llofnodwr blaenorol sef Mr Doug Rowbotham.

**11. Eitemau ar gyfer Facebook: Posteri Diogelwch Cartref – Heddlu Dyfed-Powys**

**Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm.**

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 18 Medi 2025 @7pm.**

**Llofnod/ Dyddiad ------------------------------------------------------------------------------------------**